# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 17 Ionawr 2024

## Rhwng 12.00 a 13.30 yn ystafelloedd cynadledda C a D yn Nhŷ Hywel a thrwy Microsoft Teams

**Yn bresennol ac ymddiheuriadau:** Gweler y rhestrau atodedig

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd y grŵp) y cyfranogwyr i'r cyfarfod. Eglurodd y Cadeirydd fod nifer o bobl nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod wedi gwneud cais bod y cyfarfod yn cael ei recordio, a bod y cynnwys fideo parthed y cyflwyniadau yn cael ei rannu. Cytunwyd ar y cynnig hwn yn ystod y cyfarfod.

**Diweddariad gan y Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar y datblygiadau a ganlyn:
**Y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol** – roedd y swyddogion wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn yr hydref, ac wedi ei argyhoeddi o'r angen i gryfhau'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol, yn enwedig o ran blaenoriaethu cynlluniau a fydd yn hyrwyddo newid moddol. Disgwylir y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

**Dyletswydd i Hyrwyddo Teithio Llesol** – elfen bwysig arall o adolygiad y Grŵp o'r Ddeddf Teithio Llesol oedd y galwadau am gryfhau dyletswydd y Ddeddf Teithio Llesol i hyrwyddo teithio llesol. Roedd y Cadeirydd wedi cynnig gwelliant llwyddiannus i Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), at ddibenion ychwanegu cymal newydd at y Ddeddf Teithio Llesol a fyddai'n darparu dyletswydd gyffredinol effeithiol i hyrwyddo teithio llesol, a hynny wedi'i hategu gan ganllawiau statudol. Yn gychwynnol, byddai'r ddyletswydd yn cael ei gosod ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ond roedd darpariaeth i'w hymestyn i gyrff cyhoeddus eraill, ac ymrwymiad gan Weinidogion i sicrhau bod hyn yn digwydd. Roedd ymrwymiad hefyd i lunio'r canllawiau a rhoi'r darpariaethau newydd ar waith ymhen deuddeg mis. Roedd y gwaith ymgysylltu cadarnhaol a wnaed â Llywodraeth Cymru wrth drafod y gwelliant dan sylw wedi'i hargyhoeddi o'r angen am adolygiad ehangach o'r Ddeddf Teithio Llesol, a chafwyd addewid y byddai adolygiad yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o ddiwygio'r ddeddfwriaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf.

**Teithio Llesol yn y System Gynllunio** – Yn ystod ein cyfarfod diwethaf, gwnaeth y Dirprwy Weinidog ofyn inni edrych ar pam nad oedd canllawiau datblygu sy'n hyrwyddo teithio llesol yng Nghymru yn arwain at ganlyniadau dymunol. Sefydlwyd gweithgor bach i drafod y materion hyn. Mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith, ac wedi llunio argymhellion cychwynnol. Prif ganfyddiad y grŵp yw'r ffaith nad yw llawer o'r canllawiau yn hyrwyddo teithio llesol. Mae cyfran helaeth o'r canllawiau sy'n parhau i gael eu defnyddio yn dyddio i amser cyn y Ddeddf Teithio Llesol ac yn ffafrio datblygiadau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio ceir. Yn ogystal, nododd y grŵp fod bwlch sgiliau difrifol o ran y broses o gymhwyso'r canllawiau. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnal cyfarfod arbennig i drafod y

mater ymhellach, ac y dylid cynnwys cynrychiolwyr o'r prif gyrff yn y sector. Cytunwyd ar y cynnig hwn yn ystod y cyfarfod.

**Safonau cyffredin ar gyfer datblygiadau newydd** – ar ôl sicrhau fersiwn newydd o'r safonau, sydd bellach yn gydnaws â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'r grŵp yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth ynghylch y fersiwn newydd, yn enwedig ymhlith awdurdodau lleol.

**Beiciau a bysiau** – Cynhaliwyd cyfarfod adeiladol â Phrif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru, yn bennaf er mwyn trafod beiciau ar fysiau a ddefnyddir yn lle trenau. Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y grŵp i ehangu ei gwmpas ac archwilio'r holl faterion sy'n ymwneud ag integreiddio mewn perthynas â bysiau a beiciau, ac i gynnwys undebau llafur fel cynrychiolwyr y gyrwyr bysiau a fyddai'n gorfod sicrhau bod unrhyw system newydd yn gweithio. Y bwriad yw cynnull grŵp bach o randdeiliaid, a fydd yn paratoi cynigion i'r grŵp trawsbleidiol eu trafod.

**Ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Diogelwch Ffyrdd** – Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Grŵp ymateb drwy gymeradwyo'r 'Argymhellion ar gyfer strategaeth newydd' yn yr 'Adroddiad ar Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru 2013 i 2020', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a thrwy alw am i'r strategaeth newydd fod yn seiliedig ar yr argymhellion hynny. Cytunwyd ar y cynnig hwn yn ystod y cyfarfod.

**Nodi 10 mlynedd ers pasio'r Ddeddf Teithio Llesol** – diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n rhan o'r digwyddiad llwyddiannus iawn a drefnwyd gan y grŵp.

**Trafodaeth Banel – Ymgynghoriadau effeithiol ar gyfer prosiectau teithio llesol.**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon, gan egluro ei bod wedi codi yn sgil cwestiwn a ofynnwyd yng nghyfarfod diwethaf y grŵp, sef: 'Sut ydych chi'n cynnal ymgynghoriadau effeithiol ar gynigion teithio llesol manwl mewn hinsawdd wleidyddol sy'n annog gwrthwynebiad i unrhyw gynnig sy'n cael ei ystyried fel mesur sy'n cyfyngu ar y defnydd o geir?' Bu cryn ddiddordeb yn y pwnc, yn enwedig yn sgil y cynnwrf gwleidyddol a welwyd ynghylch y cynigion ULEZ yn Llundain a'r terfyn cyflymder o 20mya yng Nghymru. Ymddengys, felly, ei bod yn briodol i'r grŵp neilltuo mwy o amser i'r pwnc a chlywed safbwyntiau arbenigwyr yn y maes. Cyflwynodd y Cadeirydd aelodau'r panel, a oedd yn cynnwys Shayoni Lynn o Lynn Global, Patrick Williams o Sustrans Cymru, a Liz Williams o'r RNIB.

Amlinellodd Shayoni genhadaeth a gweithgarwch Lynn Global, gan gynnwys y Gell Gamwybodaeth. Pwysleisiodd bwysigrwydd y defnydd o wyddor ymddygiadol, a'r ffaith bod y sefydliad yn defnyddio ymchwil sylfaenol ac yn gwreiddio'r broses werthuso ym mhopeth y mae'n ei wneud. Mynegodd y farn bod gan y cwmni gyfrifoldeb i amddiffyn pobl rhag camwybodaeth – term y gwnaeth ei ddiffinio fel 'rhannu gwybodaeth ffug heb fwriad'. Mae rhannu twyllwybodaeth yn weithred fwriadol. Twyllwybodaeth a chamwybodaeth yw cynhyrchion diwydiant trefnus sy'n gweithredu ar raddfa fawr, yn aml yn seiliedig ar wybodaeth dreiddgar ynghylch ymddygiad dynol. Mae'n bwysig rhagweld beth fyddai effaith wirioneddol twyllwybodaeth / camwybodaeth ar ymddygiadau go iawn y tu allan i

amgylchedd artiffisial y cyfryngau cymdeithasol. Ei chyngor hi oedd y dylai pobl ddisgwyl twyllwybodaeth. Dywedodd mai mater o 'pryd', nid 'os' ydyw, ac y dylid cynllunio ar ei gyfer. Dylid llenwi bylchau gwybodaeth â gwybodaeth gywir. Mae gan ddylanwadwyr a'r rhai sy'n hyrwyddo ymgyrchoedd lleol rôl allweddol yn eu cymunedau. Ei chyngor oedd i bobl oedi cyn ymgysylltu â thwyllwybodaeth / camwybodaeth, gan nodi y dylent osgoi rhannu gwybodaeth ffug. Mae sicrhau data cywir yn hanfodol. Soniodd am yr angen i oroesi'r storm, sy'n arbennig o bwysig mewn cyd-destun trafnidiaeth, lle mae'r gwrthwynebiad tuag at fesur yn aml yn lleihau dros amser.

Soniodd Patrick am ei brofiad eang o ymgysylltu â phobl – yn enwedig plant – ar ddatblygiadau penodol. Mae'n bwysig peidio â diystyru gallu plant i ddeall ac ymgysylltu â materion cymhleth. Mae plant hefyd yn ffordd o gyrraedd cynulleidfaoedd eraill. Mae ymddygiad pobl wedi'i wreiddio'n ddwfn, ac mae ei newid yn gofyn am feithrin y sgiliau sydd eu hangen i gwestiynu'r sefyllfa sydd ohoni. Er mwyn pwysleisio maint yr her, cyfeiriodd at enghraifft o riant a oedd wedi awgrymu mabwysiadu trefniant gyrru trwodd (*drive-thru*), yn debyg i'r hyn a ddefnyddir gan McDonald's, i ganiatáu rhieni i ollwng eu plant yn yr ysgol. Yn aml, mae'n rhaid gwneud dewisiadau anodd, ond mae pobl yn deall hyn ac yn gwybod efallai nad oes lle i ddarparu ar gyfer yr holl ddymuniadau sy'n cystadlu. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pwrpas prosiectau a dangos eu heffaith. Dylid cadw mewn cysylltiad drwy gydol y prosiect, a dylid deall bod y broses ymgysylltu yn un flêr.

Pwysleisiodd Liz y ffaith bod yr RNIB yn cefnogi teithio llesol. Mae pobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall yn debygol iawn o gerdded i'r mannau lle maent yn cael gwasanaethau, gan nad ydynt, ar y cyfan, yn gallu gyrru. Fodd bynnag, maent yn aml yn wynebu rhwystrau wrth geisio defnyddio ein strydoedd. Mae'n hanfodol bod eu hanghenion yn cael ystyriaeth briodol yng nghamau cychwynnol y broses o ddylunio seilwaith teithio llesol. Tynnodd sylw at y problemau a gaiff eu hachosi gan blatfformau mewn safleoedd bysiau sydd wedi'u dylunio'n wael, a'r angen am lwybrau i gerddwyr yn unig. Dylid annog cydgynhyrchu, yn ogystal ag ymgysylltu parhaus drwy gydol y prosiect. Mae'n bwysig sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn hygyrch, a bod ffontiau mwy yn cael eu defnyddio, o bosibl. Mae gwybodaeth am sut i wella hygyrchedd y wybodaeth a ddarperir ar gael yn hwylus. Anogodd y broses o weithio gyda sefydliadau lleol sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall, fel RNIB, Sight Life a Vision Support (gogledd Cymru). Byddai sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau gwahanol, fel braille neu ar ffurf sain, yn ddymunol. Nid yw ffeiliau PDF a PowerPoint bob amser yn gydnaws â rhaglenni darllen sgrin; dylai fod gan unrhyw ddelweddau a ddefnyddir ar-lein ddisgrifiad 'alt text'. Nid yw mapiau 2D yn effeithiol, ond mae mapiau cyffyrddol yn ddefnyddiol. Mae arferion safonol cyfarfodydd yn bwysig, yn enwedig cyflwyniadau. Gan fod blychau sgwrsio yn ymyrryd â rhaglenni darllen sgrin, mae darparu crynodeb o'r sgwrs yn ddefnyddiol. Mae sicrhau bod lleoliad yn agos at lwybr bws yn ffactor allweddol o ran sicrhau ei hygyrchedd. Mae RNIB yn hapus i ddarparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant ynghylch yr holl faterion hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r panel am eu cyfraniadau, a gwahoddodd y rhai eraill a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Gwnaed y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth ddilynol. Mae'n bwysig teilwra negeseuon i gyd-fynd â safbwyntiau gwrthwynebwyr posibl, cyn belled ag y bo modd. Mae ymgysylltu'n gynnar yn y broses yn hynod bwysig. Fodd bynnag, gallai fod yn anodd perswadio awdurdodau lleol i wneud hyn

gan eu bod yn ofni addo gormod. Mae tueddiad i geisio gosod beicwyr, cerddwyr a defnyddwyr bysiau yn erbyn ei gilydd, fel pobl sy'n cystadlu am yr un gofod, ac mae angen osgoi naratifau cynhennus. Mae erthyglau am feicio a beicwyr yn aml yn cael eu defnyddio gan y cyfryngau fel abwyd i ddenu pobl i glicio, ac mae'r sefyllfa hon yn gwaethygu wrth i'r diwydiant grebachu ac wrth i'r pwysau ar newyddiadurwyr gynyddu. Gallai'r cam o ddatblygu gwrth-naratifau i wrthbwyso'r negeseuon negyddol fod yn effeithiol. Yn sgil ymdrechion i ddifrïo gwleidyddion ac arbenigwyr, pwy yw'r bobl y gellid eu hystyried yn 'gyfryngwyr y gellir ymddiried ynddynt'? Gallai'r broses o fapio a blaenoriaethu rhanddeiliaid helpu'r broses o'u nodi ar lefel leol. Mae cyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio yn effeithiol wrth feithrin ymddiriedaeth. Mae teilwra negeseuon a thechnegau er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â nodweddion cymunedau penodol yn hanfodol. Mae angen cyrraedd pwynt lle'r ydym yn gwerthfawrogi seilwaith teithio llesol gymaint ag yr ydym yn gwerthfawrogi ein ceir.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Unrhyw fater arall:** Dim.

**Arfer da o ran darparu teithio llesol: Active Wheels** – Grŵp beicio cymdeithasol cynhwysol sydd wedi'i leoli ym Merthyr ac sy'n ceisio cefnogi pobl o bob gallu.

Cyflwynodd y Cadeirydd Phil Lewis, sef Cadeirydd y grŵp beicio cymdeithasol cynhwysol sydd wedi'i leoli ym Merthyr.

Soniodd Phil am hanes y grŵp a rhai o'r ffigurau allweddol a oedd wedi cynorthwyo'r broses o'i ddatblygu. Mae'n canolbwyntio bellach ar annog pawb i feicio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r buddion amgylcheddol, corfforol ac iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â beicio. Cafodd y grŵp grant gan Chwaraeon Cymru, a bu modd iddo gynnig teithiau yn rhad ac am ddim ar ei fflyd o feiciau a threiciau. Mae darparu beiciau y gellid eu hurio yn rhad ac am ddim i bobl nad ydynt yn berchen, nac yn gallu fforddio, eu beiciau eu hunain, wedi cynyddu cyrhaeddiad y grŵp. Mae ganddo fynediad hefyd i lwybr beicio diogel mewn ysgol leol. Disgrifiodd yr ystod amrywiol o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r grŵp, gan nodi sut mae'r grŵp yn eu helpu i oresgyn heriau personol. Nod y grŵp yw darparu llawer o gyfleoedd beicio i bobl drwy drefnu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau. Mae hefyd yn ymgyrchu i ddileu rhwystrau ffisegol i feicio drwy gael gwared ar rwystrau ar lwybrau sy'n peri anawsterau penodol i feicwyr anabl. Mae aelodau'r grŵp wedi llwyddo i berswadio cyngor Merthyr Tydfil i wneud newidiadau sylweddol i'r rhwystrau dan sylw. Yn awr, maent yn gwneud cais am gyllid i ddarparu e-feiciau a datblygu rhagor o wybodaeth am lwybrau lleol. Gwahoddodd Phil unrhyw un sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth i gysylltu ag ef drwy anfon e-bost at contact@activewheels.wales. Yn ystod y sesiwn sylwadau a chwestiynau, cafodd gwaith y grŵp, ynghyd ag ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan, ganmoliaeth fawr. Awgrymwyd y dylid ystyried y grŵp yng nghyd-destun presgripsiynu cymdeithasol.

Diolchwyd i Phil am ei gyflwyniad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.30.**

## Yn bresennol

| Yn bresennol yn y cnawd | | | |
|---|---|---|---|
| Enw cyntaf | Cyfenw | Teitl y swydd | Sefydliad |
| Ken | Barker | | Cycling UK |
| Rebecca | Brough | Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth | Cerddwyr Cymru |
| Nancy | Cavill | Uwch Swyddog Polisi | Grŵp y Blaid Lafur yn y Senedd |
| Dan | Coast | Ysgrifennydd | Beicio Casnewydd |
| Stephen | Cunnah | Rheolwr Polisi a Materion Allanol | Sustrans Cymru |
| Elliot | Davies | Rheolwr cyfrif | Lynn Group |
| Sian | Donovan | Cyfarwyddwr | Pedal Power |
| Richard | Evans | Cadeirydd | Gweithdy Beiciau Caerdydd |
| Natalie | Grohmann | Trafnidiaeth – Swyddog Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau | Llywodraeth Cymru |
| Huw | Irranca-Davies | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Meryl | James | Staff Cymorth Aelod o'r Senedd | Julie Morgan AS |
| Gwyn | Lewis | Teithio Llesol | Llywodraeth Cymru |
| Shayoni | Lynn | Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd | Lynn Global |
| Hugh | Mackay | | Cycling UK, Bro Morgannwg |
| Gwenda | Owen | Swyddog Ymgysylltu – Cymru | Cycling UK |
| Gareth | Price | Clerc | Senedd Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd | Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Kaarina | Ruta | Cynorthwy-ydd Trafnidiaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| John | Sayce | Cadeirydd | Wheelrights |
| Phil | Snaith | Ysgrifennydd | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Tom | Wharf | Pennaeth Dylunio | Trafnidiaeth Cymru |
| Liz | Williams | Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus | RNIB (Cymru) |
| **Yn bresennol drwy Teams** | | | |
| Enw cyntaf | Cyfenw | Teitl y swydd | Sefydliad |
| Jackie | Aplin | Aelod o Staff Cymorth Joyce Watson | Joyce Watson AS |
| Ioan | Bellin | SCA | Rhys ab Owen AS |
| John | Bradley | Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus y GIG | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Richard | Brunstrom | | Cycling UK, Gogledd Cymru |
| Joseph | Carter | Pennaeth y Gwledydd Datganoledig | British Lung Foundation |
| Patricia | Denning | Gweithiwr Achos | Heledd Fychan |
| Duncan | Dollimore | Pennaeth Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd | Cycling UK |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Helen | Donnan | Swyddog Maes Mynediad, Cymru | Cymdeithas Ceffylau Prydain |
| Ryland | Doyle | Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil | Mike Hedges AS |
| Donna | Edwards-John | Swyddog Teithio Llesol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Gemma | Hobson | | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Keith | Jones | Cyfarwyddwr | ICE Wales Cymru |
| Phil | Lewis | Cadeirydd | Active Wheels |
| Richard | Lewis | Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus | Iechyd Cyhoeddus Cymru (Gwent) |
| Hilary | Mai | | ValeVeloWays |
| Chris | Perry | Cyfarwyddwr | Lynn Group |
| Paul | Pilkington | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Louis | Preece | Swyddog Prosiectau Teithio Llesol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Gemma | Roberts | Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus | Sefydliad Prydeinig y Galon |
| Alan | Tapp | Athro Marchnata Cymdeithasol | Prifysgol Gorllewin Lloegr (UWE) |
| Greg | Tasker | Rheolwr Teithio Llesol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Tom | Wells | | Teithio Llesol Gorllewin Cymru |
| Christopher | White | Darlithydd ym maes Iechyd, Iechyd Meddwl a Lles | Prifysgol Wrecsam |
| Patrick | Williams | Rheolwr y Rhaglen Genedlaethol, y Gronfa Teithio Llesol | Sustrans Cymru |

**Ymddiheuriadau:**

Heledd Fychan AS, Senedd Cymru
Matthew Gilbert, Arweinydd Teithio Llesol, Trafnidiaeth Cymru
Max Hampton, Cynghorydd Dylunio, Comisiwn Dylunio Cymru
Delyth Jewell AS, Senedd Cymru
David Naylor, Wheelrights Abertawe
Peredur Owen Griffiths AS, Senedd Cymru
Paul Streets, Ysgrifennydd, Dinas Feicio Caerdydd